OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2025 Rhif 125 (Cy. 27)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Twnelau Gibraltar, Trefynwy, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2025

Gwnaed	*6 Chwefror 2025*
Yn dod i rym	*11 Chwefror 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Twnelau Gibraltar, Trefynwy, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Chwefror 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 11 Chwefror 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A40 Casnewydd i Gaerwrangon;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar gerbytffordd tua'r dwyrain na cherbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4.—(1) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 12, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd yn lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

(2) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 12, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd yn lôn allanol cerbytffordd tua'r

(**1**) Amnewidiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

dwyrain y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n lletach na 2.9 metr neu sy'n hirach na 18.65 o fetrau fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd pobl anabl neu reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

10. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn.

11. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 7 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

12.—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

13. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 5, 6 a 7 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 9, 10 ac 11 yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

14. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 6 Chwefror 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1
Gwrthlif

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 300 metr i'r de o borth Twnelau Gibraltar hyd at bwynt tua 200 metr i'r gogledd o borth y Twnelau.

ATODLEN 2
Gwahardd cerbydau dros dro

Y darn o lôn ymwahanu'r A40 tua'r gogledd hyd at y B4293 Portal Road.

Y darn o ffordd ymadael tua'r de yr A40 hyd at ei chyffordd â'r rhan ddwyffordd o'r B4293 Beech Road.

Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sydd 527 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt pont Fferm St Dials, Llanfihangel Troddi.

ATODLEN 3
Gwahardd cerbydau mawr dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd-ddwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffordd ymadael tua'r de Cyfnewidfa Rhaglan yr A449 hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Llandidiwg, Trefynwy.

Y darn o gerbytffordd tua'r de-orllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Llandidiwg hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r de yn Llanfihangel Troddi.

ATODLEN 4
Gwahardd beicwyr, cerbydau pobl anabl a cherddwyr dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd-ddwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o Gyfnewidfa Rhaglan hyd at ei chyffordd â'r B4293 Cinderhill Street, Trefynwy (ffordd ymuno tua'r gogledd yr A40).

Y darn o gerbytffordd tua'r de-orllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r B4293 Beech Road hyd at ei chyffordd â Mitchel Troy Road.

ATODLEN 5
Terfyn cyflymder 20 mya dros dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 300 metr i'r de o borth Twnelau Gibraltar hyd at bwynt tua 200 metr i'r gogledd o borth y Twnelau.

ATODLEN 6
Terfyn cyflymder 30 mya dros dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A466 signalau traffig Pont Afon Gwy hyd at bwynt 2.25 cilometr i'r de o'r gyffordd honno.

ATODLEN 7
Terfyn cyflymder 50 mya dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd-ddwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 4.05 cilometr i'r de o'i chyffordd â'r A466 signalau traffig Pont Afon Gwy hyd at bwynt 2.25 cilometr i'r de o'r signalau traffig hynny.